

Hawliau Iaith: Eiddo Siaradwyr Mamiath yn Unig?¹

Huw Lewis

Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf mae athronwyr gwleidyddol wedi rhoi sylw cynyddol i oblygiadau amrywiaeth ddiwylliannol i'w dealltwriaeth o egwyddorion moesol allweddol, megis rhyddid, cydraddoldeb a democratiaeth. Mae hyn wedi arwain at nifer o drafodaethau diddorol sydd wedi tueddu i gael eu cwmpasu gan benawdau megis 'amlddiwylliannedd', 'gwleidyddiaeth hunaniaeth' neu 'wleidyddiaeth cydnabod'. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, cyhoeddwyd amryw o astudiaethau sy'n cymryd golwg gyffredinol ar oblygiadau amrywiaeth ddiwylliannol, a datblygwyd nifer o fframweithiau normadol sy'n nodi'n fras pa fath o gamau y gall neu y dylai gwladwriaethau eu cymryd er mwyn ymateb yn deg i alwadau gwahanol grwpiau am gydnabyddiaeth o'u nodweddion unigryw.² Yn ogystal, cyhoeddwyd cyfres o drafodaethau manylach sy'n canolbwyntio ar y cwestiynau normadol sy'n codi mewn perthynas â ffurfiau penodol ar amrywiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, cyhoeddwyd cyfrolau sy'n rhoi sylw manwl i bynciau megis hil,³ pobloedd brodorol,⁴ mudo,⁵ cenedlaetholdeb,⁶ a chrefydd.⁷

Fodd bynnag, er gwaethaf datblygiadau o'r fath, ychydig iawn o sylw a roddwyd gan athronwyr gwleidyddol i amrywiaeth ieithyddol a'r galwadau am gydnabyddiaeth a gyflwynir gan wahanol leiafrifoedd ieithyddol. Cyhoeddwyd

- 1 Mae'r ysgrif hon yn addasiad o destun y ddarlith 'Pwy all feddu ar hawliau iaith?' a draddodwyd fel Darlith Gymraeg Flynyddol Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ar nos Fawrth 8 Mehefin 2011. Dymuna'r awdur ddiolch yn fawr i Peter Jeffreys a John Samuel, ynghyd â phawb arall a fu ynghlwm â threfniadau'r noson.
- 2 Gweler, er enghraifft, Joseph Carens, *Culture, Citizenship and Community: A Contextual Exploration of Justice as Evenhandedness* (Oxford: Oxford University Press, 2000); Will Kymlicka, *Multicultural Citizenship: A Liberal Theory of Minority Rights* (Oxford: Oxford University Press, 1995); Bhikhu Parekh, *Rethinking Multiculturalism: Cultural Diversity and Political Theory* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2000); Charles Taylor, 'The Politics of Recognition', yn *Multiculturalism and the Politics of Recognition*, gol. A Gutmann (Princeton: Princeton University Press, 1992), tt. 25-73.
- 3 David C. Cochran, *The Color of Freedom: Race and Contemporary American Liberalism* (Albany: SUNY Press, 1999).
- 4 Duncan Ivison *et al.*, goln., *Political Theory and the Rights of Indigenous Peoples* (Cambridge: Cambridge University Press, 2000).
- 5 Reiner Bauböck, *Transnational Citizenship: Membership and Rights in International Migration* (Aldershot: Edward Elgar, 1995); Phillip Cole, *Philosophies of Exclusion: Liberal Political Theory and Immigration* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2000).
- 6 Yael Tamir, *Liberal Nationalism* (Princeton: Princeton University Press, 1993); David Miller, *On Nationality* (Oxford: Oxford University Press, 1995).
- 7 Nancy Rosenblum, gol., *Obligations of Citizenship and Demands of Faith: Religious Accommodation in Pluralist Democracies* (Princeton: Princeton University Press, 2000).

ambell i ysgrif arwyddocaol ar ddiwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au.⁸ Serch hynny, eithriadau prin oedd rhain, ac yn sgil hynny, nid gorddweud oedd yr athronydd gwleidyddol blaenllaw o Ganada, Will Kymlicka, pan ddatganodd ym 1995:

... political theorists have had a lot to say about the language of politics – that is the symbols, metaphors and rhetorical devices of political discourse – but have had virtually nothing to say about the politics of language – that is, decisions about which languages to use in political, legal and educational forums.⁹

Eto i gyd, daeth tro ar fyfwr dros y blynyddoedd diwethaf. O'r diwedd, gwelwyd athronwyr gwleidyddol yn ymdrechu i fynd i'r afael ag oblygiadau'r amrywiaeth ieithyddol sy'n nodweddu'r mwyafrif o wladwriaethau modern. Yn wir, mewn cyfnod cymharol fyr cyhoeddwyd corff nid ansylweddol o lenyddiaeth sy'n trafod pa fath o gamau y dylid eu cymryd er mwyn ymateb yn deg i fodolaeth amrywiaeth o'r fath.¹⁰

Yn arwyddocaol, mae nifer helaeth o'r athronwyr hynny sydd wedi cyfrannu i'r drafodaeth newydd hon wedi dadlau y dylai cyfundrefn ieithyddol deg fod yn amlieithog o ran natur, ac y dylid, fel mater o gyfiawnder, sefydlu hawliau i ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol autochthonaidd – hynny yw, ieithoedd lleiafrifol cynhenid megis y Gymraeg, y Gatalaneg neu'r Fasgeg – mewn peuoedd cyhoeddus, ochr yn ochr ag iaith fwyafrifol y wladwriaeth. Honnir y dylai ieithoedd lleiafrifol o'r fath dderbyn cydnabyddiaeth swyddogol gan y wladwriaeth, ac o ganlyniad, dylai bod modd eu defnyddio wrth wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus – er enghraifft ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol – neu wrth ymgymryd

8 Gweler yn benodol: Leslie Green, 'Are Language Rights Fundamental?', *Osgoode Hall Law Journal*, 25 (1987), 639-69; Denise Réaume, 'The Constitutional protection of Language: Security or Survival?', yn *Language and the State: The Law and Politics of Identity*, gol. David Schneiderman, (Cowensville: Editions YvonsYvYvon Blais, 1991), pp. 37-57; 'The Group Right to Linguistic Security: Whose Right, What Duty?', yn *Group Rights*, gol. Judith Baker (Toronto: Toronto University Press, 1994), pp. 119-41.

9 Yvon Blais, 1991), tt. 37-57; 'The Group Right to Linguistic Security: Whose Right? What Duty?', yn *Group Rights*, gol. Judith Baker (Toronto: Toronto University Press, 1994), tt. 119-41.

Will Kymlicka, 'Introduction', yn *The Rights of Minority Cultures*, gol. Will Kymlicka (Oxford: Oxford University Press, 1995), tt. 1-27.

10 Gweler y cyfraniadau amrywiol yn Will Kymlicka ac Alan Patten, goln., *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press, 2003). Gweler hefyd: Helder De Schutter, 'The Linguistic Territoriality Principle: A Critique', *Journal of Applied Philosophy*, 25.2 (2008), 105-120; Stephen May, *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language* (New York: Longman, 2001); Alan Patten, 'Political Theory and Language Policy', *Political Theory*, 29.5 (2001), 683-707; 'Liberal Neutrality and Language Policy', *Philosophy and Public Affairs*, 31.4 (2003), 356-86; 'The Justification of Minority Language Rights', *The Journal of Political Philosophy*, 17.1 (2009), 102-28; Philippe Van Parijs, 'Linguistic Justice for Europe, Belgium and the World', yn *Lectures for the XXIst Century*, gol. Bart Raymaekers (Leuven: Leuven University Press), tt. 13-36; 'Linguistic Diversity as Curse and as By-Product', yn *Respecting Linguistic Diversity in the European Union*, gol. Xabier Arzoz (Amsterdam: John Benjamins Publishing Company), tt. 17-46.

â busnes cyhoeddus – er enghraifft yn y ddeddfwrfa, yn y llysoedd, neu wrth ymwneud â swyddogion cyhoeddus.¹¹

Fodd bynnag, yn ddiweddar, fe'm tarwyd gan y ffaith fod y sawl sydd wedi dadlau o blaid cydnabod 'hawliau iaith swyddogol' o'r fath wedi tueddu i gymryd yn ganiataol mai hawliau y gall unigolion ond meddu arnynt mewn perthynas â'i mamiaith ydynt. Er enghraifft, yn un o'r cyhoeddiadau cyntaf i drafod hawliau iaith o bersbectif normadol, datganodd Leslie Green fel a ganlyn: 'language rights are rights to speak a particular language, that is, *one's mother tongue*.'¹² Mewn cyhoeddiad diweddarach honnodd Denise Réaume: 'a theory of language rights is ... about the interest in using a particular language, namely, *one's mother tongue*.'¹³ Yn fwy diweddar, mynegwyd safbwynt tebyg gan Will Kymlicka wrth iddo ddatgan fel a ganlyn: 'the people that can plausibly claim that they have linguistic interests that could trump or could set constraints on majority decision making [and therefore give rise to official language rights] are going to be *those who are mother tongue speakers*.'¹⁴ Eto i gyd, i ba raddau y dylid arddel tybiaethau o'r fath? I ba raddau y dylid dehongli hawliau iaith swyddogol fel hawliau y gall unigolion ond meddu arnynt mewn perthynas â'i mamiaith? Mewn geiriau eraill, ai dim ond y sawl sy'n siarad iaith X fel mamiaith all fynnu bod ganddynt hawl i'w defnyddio wrth wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus? Dyma'r cwestiynau a gaiff eu trafod yn ystod yr ysgrif hon.

Heb os, maent yn gwestiynau a ddylai hawlio sylw'r sawl sy'n ymddiddori yn y drafodaeth ynglŷn â dyfodol yr iaith Gymraeg. Ers yr 1960au, cyflwynwyd ystod o fesurau sydd wedi cyfrannu at ddyrchafu statws cyhoeddus yr iaith, ac o ganlyniad, daeth yn bosib gwneud defnydd o amrediad ehangach o wasanaethau cyhoeddus ac ymgymryd ag amrediad ehangach o dasgau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yr hyn sy'n arwyddocaol yw'r ffaith nad dim ond unigolion sy'n siarad y Gymraeg fel mamiaith a fu'n galw am hawliau o'r fath. Mae'r galw am ddarpariaeth ehangach trwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrff cyhoeddus hefyd wedi cwmpasu nifer sylweddol o bobl sydd wedi dysgu'r iaith fel oedolion. Yn wir, mae rhai o ffigyrau amlycaf y mudiad iaith o'r hanner canrif diwethaf yn syrthio i'r categori hwn. Ymhellach, ym maes addysg, mae'r galw am ddarpariaeth ehangach, ac am yr hawl i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, wedi cael ei yrru, i raddau helaeth, gan rieni sydd ddim yn siarad yr iaith eu hunain.

- 11 Wrth reswm, ceir hefyd rhai nad sy'n arddel y farn hon. Gweler, er enghraifft, Thomas Pogge, 'Accommodation Rights for Hispanics in the United States', yn *Language Rights and Political Theory*, goln. Will Kymlicka ac Alan Patten (Oxford: Oxford University Press, 2003), tt. 105-122; Brian Barry, *Culture and Equality: An Egalitarian Critique of Multiculturalism* (Cambridge: Polity Press, 2001).
- 12 Green, 'Are Language Rights Fundamental?', t. 651, pwyslais wedi'i ychwanegu.
- 13 Reaume, 'The Constitutional Protection of Language', t. 38, pwyslais wedi'i ychwanegu.
- 14 Gwnaed y sylw hwn yn ystod cyfres o gyfweiliadau a gynhaliwyd gan yr awdur tra'n ymweld â Phrifysgol Queens, Ontario fel ysgolhaig gwadd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2007. Dylai'r darlennydd nodi mai safbwynt a fynegwyd yn fyrfyfyr mewn cyfweiliad ydyw. Cynrychiola syniadau *cychwynol* Will Kymlicka parthed y dosbarthiad cywir o hawliau iaith, ac yn sgil hynny, ni ddylid disgwyl iddo lynnu'n gaeth at y farn hon mewn gweithiau a gyhoeddir ganddo yn y dyfodol. Er hynny, dyfynnir y sylw yma er mwyn cynnig tystiolaeth bellach o'r dybiaeth gyffredin ymhlith athronwyr gwleidyddol cyfoes mai hawliau y gall unigolion ond meddu arnynt mewn perthynas â'u mamiaith yw halwiau iaith swyddogol.

Sut ddylem drin galwadau ieithyddol y bobl hyn? Maent oll yn byw yng Nghymru, ac fe ellid dadlau eu bod oll yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sy'n perthyn iddynt mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Serch hynny, os ydym yn glynu at wir ystyr y gair, nid yw'r Gymraeg yn famiaith iddynt. O ganlyniad, a ddylem gasglu nad yw eu galwadau mewn perthynas â'r iaith yn meddu ar yr un grym moesol a rhai'r sawl sy'n ei siarad fel mamiaith? A ddylid cytuno â'r ysgolheigion a ddyfynnwyd uchod a chasglu mai dim ond y siaradwyr mamiaith all fynnu fod ganddynt hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd cyhoeddus allweddol? Neu, a fedr unigolion eraill sy'n trigo yng Nghymru fynnu darpariaethau cyfrwng Cymraeg fel mater o hawl?

Hawliau moesol

Cyn mynd ati i ymdrin yn fanwl â'r cwestiynau hyn, mae angen camu nôl a gwneud ambell i sylw cefndirol. Yn gyntaf, dylid nodi mai hawliau yn yr ystyr moesol fydd dan sylw yn yr ysgrif hon, nid hawliau yn yr ystyr cyfreithiol. Maent yn gysyniadau gwahanol. Caiff hawliau cyfreithiol eu creu ac yna'u gwarantu gan gyfraith. O ganlyniad, gellir canfod ein hawliau cyfreithiol trwy ystyried pa ddeddfau a basiwyd gan y llywodraeth, trwy edrych mewn cyfeirlyfrau cyfreithiol neu trwy fynd i'r llys a gofyn i farnwr.¹⁵ Nid yw hawliau moesol, fodd bynnag, yn dod i fodolaeth yn sgil mabwysiadu cyfraith neu gymal cyfansoddiadol penodol. Yn hytrach, maent yn bodoli'n annibynnol o'r pethau hyn. Fe'u seilir ar ystyriaethau moesol cyffredinol, megis cyfiawnder, cydraddoldeb a thegwch. Wrth gwrs, yn ymarferol mae'r ffurfiau hyn ar hawliau'n gorgyffwrdd yn bur aml.¹⁶ Mae ystod o'r hawliau hynny a warantir gan gyfraith mewn nifer o gymdeithasau yn hawliau sydd hefyd yn adlewyrchu ystyriaethau moesol pwysig. Serch hynny, nid oes yn rhaid wrth y gorgyffwrdd hwn. I ddechrau, nid yw parchu a chynnal hawliau moesol, o anghenraid, yn galw ar lywodraeth i'w ffurfioli fel hawliau cyfreithiol. Mae'n ddigon posib, a hefyd yn ddigon derbyniol, i lywodraeth fabwysiadu polisi arall sy'n parchu a gwarantu hawl foesol benodol heb ddibynnu ar brocio hawliau cyfreithiol.¹⁷ Ar ben hynny, nid yw pob hawl gyfreithiol, o anghenraid, yn deillio o hawl foesol fwy sylfaenol. Caiff rhai hawliau cyfreithiol eu sefydlu am resymau ymarferol pur, heb roi sylw o gwbl i ystyriaethau moesol, ac yn sgil hynny ni fyddai dileu hawliau o'r fath yn esgor ar anghyfiawnder difrifol.¹⁸

Yn ail, yn sgil y ffocws ar hawliau moesol, mae angen amlinellu fy nealltwriaeth o'r amodau penodol sy'n rhaid eu bodloni er mwyn esgor ar hawliau o'r fath. Ar y mater hwn, dilynaf arweiniad yr athronydd gwleidyddol a chyfreithiol blaenllaw, Joseph Raz, a ddiffiniodd hawliau moesol fel a ganlyn: 'X has a right if and only if ... an aspect of X's well-being (his interest) is a sufficient reason for holding some other person(s) to be under a duty.'¹⁹ Gwelir, felly, nad ar chwarae bach y

15 Maurice Cranston, *What are Human Rights?* (London: The Bodley Head, 1973), tt. 5-6.

16 John Mahoney, *The Challenge of Human Rights* (Oxford, Blackwell Publishing, 2007), t. 72.

17 Patten, 'The Justification of Minority Language Rights', t. 103, n. 3.

18 Green, 'Are Language Rights Fundamental?', tt. 647-9.

19 Joseph Raz, *The Morality of Freedom* (Oxford: Oxford University Press, 1986), t. 166.

gellir cydnabod hawl foesol i nwydd neu gyfle penodol. Yn nhyb Raz, rhaid i'r deilydd feddu ar fudd neu angen penodol a gai ei warchod wrth sefydlu'r hawl dan sylw, a rhaid i'r budd neu'r angen hwn fod yn ddigon sylweddol ac arwyddocaol i gyfiawnhau gosod dyletswydd ar eraill (dyletswydd i barchu'r hawl ac i ymatal rhag ei dramgwyddo). Mewn geiriau eraill, rhaid i'r deilydd fedru dangos sut y byddai ei les yn cael ei hybu wrth estyn iddo'r hawl a sut y byddai'n dioddef niwed difrifol pe na wnaed hynny. Nawr, os cymhwysir y dehongliad hwn i'r achos dan sylw, gellir casglu bod gallu unigolion i fynnu hawl foesol i ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft wrth wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus, yn ddibynnol ar fedru dangos eu bod yn meddu ar fuddiannau neu anghenion mewn perthynas â'r iaith sy'n ddigon pwysig ac arwyddocaol i ddilysu sefydlu'r dyletswyddau cysylltiedig. Yn ystod gweddill yr ysgrif af ati i fyfyrion ar arwyddocâd yr amod hwn. Dechreuaf trwy wneud hynny mewn perthynas â'r sawl sy'n siarad y Gymraeg fel mamiaith ac yna mewn perthynas â charfannau eraill.²⁰

Galwadau siaradwyr mamiaith

A yw'r sawl sy'n siarad y Gymraeg fel mamiaith yn meddu ar fuddiannau neu anghenion sy'n ddigon arwyddocaol i ganiatáu cydnabod iddynt hawl foesol i'w defnyddio mewn peuoedd cyhoeddus? Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae amryw o'r ysgolheigion sydd wedi cyfrannu i'r llenyddiaeth normadol ar bwnc hawliau iaith o'r farn eu bod. Yn nhyb ysgolheigion megis Leslie Green, Denise Réaume ac Alan Patten, byddai meddu ar y gallu i fyw cymaint â phosib o'n bywydau trwy gyfrwng ein mamiaith, ac yn benodol medru ymgymryd ag ystod o orchwylion cyhoeddus trwy gyfrwng yr iaith honno, yn gwarchod buddiannau sy'n ddigon pwysig ac arwyddocaol i esgor ar hawl foesol i ddarpariaethau o'r fath.²¹

Cyfeiria'r ysgolheigion hyn at ddau fudd penodol a gai eu gwarchod. I ddechrau, honnir fod medru defnyddio'n mamiaith fel ein prif gyfrwng cyfathrebu wrth wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu ymgymryd â busnes cyhoeddus yn gwarchod budd *cyfryngol* pwysig. Fel yr eglura Green:

Most people speak no language apart from their mother tongue and those who do only rarely achieve the degree of fluency and comfort with which they speak their first language. These obvious but decisive facts establish a powerful instrumental interest in language: it is an essential tool of communication. The better one is able to use this tool, the more easily one can live in a given society and the greater will be one's educational and occupational expectations.²²

20 At berwyl yr ysgrif hon diffiniaf siaradwr mamiaith fel unigolyn a ddysgodd y Gymraeg yn y cartref yn ystod blynyddoedd cyntaf ei fywyd. Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu achosion lle nad yw pob aelod o'r cartref yn siarad yr iaith (e.e. dim ond un rhiant).

21 Gweler: Green, 'Are Language Rights Fundamental?'; Réaume, 'The Constitutional Protection of Language'; 'The Group Right to Linguistic Security'; Patten, 'Political Theory and Language Policy'; 'Liberal Neutrality and Language Policy'; 'The Justification of Minority Language Rights'.

22 Green, 'Are Language Rights Fundamental?', tt. 658-9.

Yn ogystal, gan fod iaith yn nodwedd ddiwylliannol sy'n aml yn cyfrannu at ddiffinio ein hunaniaeth, mynnir bod medru byw mewn cymdeithas lle caiff ein mamiaith ei chydabod yn swyddogol yn cyfrannu at warchod budd *mynegol* pwysig. Fel yr eglura Réaume:

... most people regard their language as a marker of identity, a cultural inheritance which they value. Even if they can speak another language, they prize the community in which they have been raised and acculturated and regard the use of their language as an important sign of this affiliation.²³

Rhain, felly, yw'r ddau fudd pwysig a gaiff eu dehongli fel rhai sy'n medru esgor ar hawl i ddefnyddio'r famiaith wrth gyfranogi mewn peuoedd cyhoeddus. Fodd bynnag, i ba raddau dylent gael eu dehongli fel buddiannau sy'n ddigon sylweddol ac arwyddocaol i ddilysu cam o'r fath?

Cymerer, i ddechrau, y budd cyfryngol. Heb amheuaeth, mae medru cyfathrebu ag eraill yn effeithiol ac yn hyderus wrth gyfranogi mewn peuoedd cyhoeddus yn angen cwbl sylfaenol. Fodd bynnag, i ba raddau y dylid casglu mai'r dull gorau o fodloni'r angen hwn yw trwy estyn i bobl yr hawl i ymgymryd â busnes cyhoeddus trwy gyfrwng eu mamiaith? Wedi'r cyfan, mae pobl yn meddu ar y gallu i ddysgu mwy nag un iaith, yn enwedig pan yn blant. O ganlyniad, mae'n bosib y gellid ymdrin â'r angen cyfryngol i gyfathrebu mewn modd mwy boddhaol ac effeithiol trwy fuddsoddi'n drwm mewn rhaglenni addysg sy'n sicrhau bod y sawl sy'n siarad ieithoedd llai eu defnydd yn medru meistrolï iaith fwyafrifol eu cymdeithas.²⁴

Fodd bynnag, gellir cwestiynu i ba raddau y byddai rhaglenni addysg o'r fath yn arwain at sefyllfa lle gall pobl gyfathrebu'n effeithiol, ac yn bwysicach, yn gwbl hyderus ym mhob pau cyhoeddus. Rhaid cofio y bydd unigolion yn aml yn canfod eu hunain dan bwysau wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus – er enghraifft yn y llysoedd neu mewn ysbytai – ac ar achlysuron o'r fath bydd y mwyafrif – hyd yn oed y sawl sydd wedi magu gafael da ar ieithoedd eraill – yn ei chael yn haws i gyfathrebu trwy gyfrwng eu mamiaith.²⁵ Nid rhywbeth dibwys felly mo'r budd cyfryngol. Ond beth am y budd mynegol sy'n ymwneud â'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth?

Yn ei ysgrif arloesol, 'The Politics of Recognition', mynnodd yr athronydd enwog o Québec, Charles Taylor, y gall pobl, dros amser, ddiodef niwed difrifol os na chaiff yr elfennau hynny sy'n sail i hunaniaeth ddiwylliannol eu grŵp eu cydnabod a'u trin â pharch. Yn nhyb Taylor:

... a person or group of people can suffer real damage, real distortion, if the people or society around them mirror back to them a confining or demeaning or contemptible picture of themselves. Nonrecognition or misrecognition can inflict harm, can be a form of oppression,

23 Réaume, 'The Constitutional Protection of Language', t. 45.

24 Alan Patten, 'What Kind of Bilingualism?', yn *Language Rights and Political Theory*, goll. Will Kymlicka ac Alan Patten (Oxford: Oxford University Press, 2003), tt. 296-321 (305-6).

25 Patten, 'Political Theory and Language Policy', t. 696.

imprisoning someone in a false, distorted, and reduced mode of being.²⁶

O ganlyniad, cred Taylor fod sicrhau cydnabyddiaeth gyhoeddus gadarnhaol i'r elfennau hynny sy'n sail i hunaniaeth grŵp yn hollbwysig i les a ffyniant ei aelodau unigol. Fodd bynnag, i ba raddau dylai iaith gael ei thrin fel elfen sy'n allweddol o safbwynt hunaniaeth?

Roedd rhai o ramantwyr Almaenaidd y ddeunawfed ganrif – meddylwyr megis Herder, Von Humboldt a Fichte – yn dehongli'r berthynas rhwng iaith a hunaniaeth fel un cwbl sylfaenol. Yn eu tyb hwy, iaith oedd pennaf sail hunaniaeth grŵp diwylliannol – ei hanfod – ac yn sgil hynny, tybiwyd y byddai dirywiad yn rhagolygon ei hiaith draddodiadol yn ei gwneud yn amhosib i grŵp gynnal ymdeimlad o hunaniaeth unigryw.²⁷ Wrth gwrs, ychydig o hygredded a briodolir i'r persbectif rhamantaidd hwn erbyn heddiw. Bellach, ceir cytundeb cyffredinol fod iaith ond yn un ymhlith ystod o elfennau sy'n medru bod yn sail i hunaniaeth grŵp. Ymhellach, dangoswyd nad yw dirywiad yn rhagolygon ei iaith draddodiadol, o anghenraid, yn atal grŵp rhag cynnal ymdeimlad o hunaniaeth unigryw.²⁸ Er hyn, fel y pwysleisia'r cymdeithasegydd iaith Stephen May, tra na ddylid trin y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth fel un cwbl hanfodol, dylid gochel rhag tybio mai arwynebol yn unig ydyw, ac nad yw iaith, felly, yn ddim mwy na nodwedd ymylol a dibwys. Fel y dadleua May:

Language clearly does *not* define us, and may not be a necessary feature, or even an important one, in the construction of our identities, whether at the individual or the collective level. I agree broadly with this ... analysis – indeed, who could not? Where I beg to differ is in refusing to take the next step that is often then taken ... : that is, to assume that, if language is merely a contingent factor of identity, it cannot therefore (ever) be a *significant* or *constitutive* factor of identity.²⁹

Yn wir, yn nhyb May, byddai mynnu mai arwynebol yn unig yw'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn anwybyddu'r ffaith ei fod yn elfen sy'n gyson ganolog i sawl achos o wrthdaro ethnig neu genedlaethol mewn sawl rhan o'r byd.

Gwelir, felly, y gellir llunio achos sy'n cefnogi'r dybiaeth bod y sawl sy'n siarad y Gymraeg fel mamiaith yn meddu ar fuddiannau sy'n ddigon arwyddocaol i esgor ar hawliau i fedru ei defnyddio wrth wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus. Fodd bynnag, beth am unigolion eraill sy'n byw yng Nghymru ond sydd ddim yn siarad y Gymraeg fel mamiaith? Beth am y

26 Taylor, 'The Politics of Recognition', t. 25.

27 Stephen May, 'Misconceiving Minority Language Rights: Implications for Liberal Political Thought', yn *Language Rights and Political Theory*, goln. Will Kymlicka ac Alan Patten (Oxford: Oxford University Press, 2003), tt. 123-52 (140).

28 Carole Eeastman, 'Language Ethnic Identity and Change', yn *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism*, gol. John Edwards (London: Academic Press), tt. 259-76.

29 May, 'Misconceiving Minority Language Rights', t. 141.

bobl sydd wedi dysgu'r iaith yn hwyrach yn eu bywydau fel eu hail neu drydedd iaith, ond sydd nawr am wneud defnydd ohoni mewn ystod o beuoedd cyhoeddus? Beth am y rhieni di-gymraeg hynny sydd am sicrhau bod eu plant yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith? I ba raddau mae'r bobl hyn hefyd yn meddu ar fuddiannau sy'n ddigon pwysig ac arwyddocaol i esgor ar hawliau moesol mewn perthynas â'r Gymraeg?

Y budd cyfryngol

Gadewch i mi ddechrau trwy edrych eto ar y cyntaf o'r buddiannau pwysig a drafodwyd uchod – y budd cyfryngol sy'n ymwneud â gallu'r unigolyn i gyfathrebu'n glir a hyderus wrth gyfranogi mewn peuoedd cyhoeddus. I ba raddau y mae'r budd neu'r angen hwn yn meddu ar berthnasedd ac arwyddocâd moesol yn achos y sawl sydd ddim yn siarad y Gymraeg fel mamiaith?

Yn achos y rhieni di-gymraeg hynny sydd am sicrhau bod eu plant yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith, mae'n anodd gweld sut gellid dadlau ei fod. Nid ydynt hwy, na chwaith eu plant, yn meddu ar unrhyw afael ar y Gymraeg ar yr adeg y caiff yr hawl ei mynnu, ac yn sgil hynny, go brin y gellir honni bod eu gallu i gyfathrebu'n glir a hyderus mewn peuoedd cyhoeddus yn dibynnu ar estyn iddynt hawl i ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg. Ni fyddai absenoldeb darpariaethau o'r fath yn peri niwed iddynt gan amharu ar eu gallu sylfaenol i gyfathrebu'n hwylus a hyderus. Mae hefyd yn amheus os gellid honni bod y budd cyfryngol yn meddu ar arwyddocâd sylweddol yn achos yr unigolion hynny sy'n meddu ar y Saesneg fel mamiaith, ond sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Bydd y bobl hyn eisoes yn rhugl yn yr iaith fwyafrifol ac felly'n debygol o fedru ei defnyddio'n hwylus. O ganlyniad, i ba raddau y gellir honni eu bod *angen* darpariaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn medru cyfathrebu'n hwylus mewn peuoedd cyhoeddus, ac y byddai ei gallu i wneud hynny'n dioddef yn absenoldeb darpariaethau o'r fath? Wrth gwrs, o fod wedi mynd i'r drafferth i ddysgu'r Gymraeg, mae'n bosib iawn y byddai nifer o'r unigolion hyn yn dymuno mynd ati i gyfranogi trwy gyfrwng yr iaith honno. Fodd bynnag, rhaid sylweddoli bod gwahaniaeth pwysig rhwng dymuniad ac angen o safbwynt eu harwyddocâd moesol, a dim ond yr ail ohonynt all gynnig sail gadarn i hawl foesol, ynghyd â'r dyletswyddau cysylltiedig.

Felly, os am geisio llunio dadl sy'n dangos nad dim ond siaradwyr mamiaith all fynnu darpariaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r Gymraeg fel mater o hawl foesol, ymddengys fel pe bai angen edrych tu hwnt i'r budd cyfryngol. Yn sgil hynny, trof i ystyried perthnasedd y budd mynegol sy'n ymwneud â'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth. I ba raddau y mae hwn yn meddu ar arwyddocâd yn achos y sawl sydd ddim yn siarad y Gymraeg fel mamiaith?

Y budd mynegol

Yn ei ysgrif adnabyddus, *A Raid i'r Iaith ein Gwahanu?*, dadleuodd J. R. Jones nad yw'n hanfodol bod unigolyn yn siarad iaith benodol fel mamiaith er mwyn i'r iaith honno chwarae rhan bwysig yn ei ddehongliad o natur ei hunaniaeth. Yn wir, yn nhyb Jones nid yw'n hanfodol i unigolyn siarad yr iaith o gwbl er mwyn iddo feddu ar arwyddocâd o'r fath. Deillia hyn o'i gred fod hunaniaeth grŵp neu genedl yn gweithredu ar ddau wastad gwahanol – y gwastad gweithrediadol a'r gwastad ffurfiannol. Disgrifiodd y gwahaniaeth rhwng y gwastadau hyn fel a ganlyn:

Gwahaniaeth ydyw rhwng dau wastad yn adeiladwaith Pobl (neu genedl) – nid annhebyg i'r gwahaniaeth a dynnir yn adeiladwaith corff rhwng ei anatomi ar y naill wastad ac, ar y gwastad arall, ei 'ffisioleg', sef y prosesau bywiol sy'n mynd ymlaen o fewn i glymau ei anatomi o funud i funud. Yr oedd hi'n anodd i gael gair Cymraeg am yr ail wastad hwn – y gwastad lle mae Pobl neu genedl yn byw eu bywyd o ddydd i ddydd ac o brofiad i brofiad, fel y mae'r gwaed yn cylchredeg yn y corff neu'r bwyd yn treulio yn y coluddion. Fe rois yr enw y 'gwastad gweithrediadol' (functional) ... Galwaf y llall 'y gwastad ffurfiannol' neu 'wastad ffurfiant'. Hwn sy'n cyfateb i anatomi'r corff.³⁰

Yn nhyb Jones, gall arwyddocâd rhai o'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at lunio a diffinio hunaniaeth genedlaethol – elfennau megis iaith draddodiadol – gael eu mynegi mewn gwahanol ffyrdd ar y ddau wastad yma, y gweithrediadol a'r ffurfiannol. I ddechrau, ar y gwastad gweithrediadol, sef gwastad bywyd dydd i ddydd, caiff y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth ei fynegi wrth iddi gael ei defnyddio fel cyfrwng byw gan rai o aelodau'r genedl mewn amrywiol beuoedd cymdeithasol. Ond, ar ben hynny, mae Jones yn pwysleisio bod y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn medru cael ei fynegi ar y gwastad ffurfiannol. Dyma lefel ddyfnach, lle nad yw arwyddocâd yr iaith i hunaniaeth y grŵp yn seiliedig ar ei ddefnydd dydd i ddydd gan yr aelodau, ond yn hytrach, ar ei gyfraniad hanesyddol i'r broses o greu a chynnal ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol unigryw.

Ar sail y sylweddoliad hwn bod arwyddocâd elfennau o hunaniaeth genedlaethol yn medru cael eu mynegi mewn gwahanol ffyrdd ar ddau wastad gwahanol, aiff Jones yn ei flaen i godi amheuan ynglŷn â'r honiad fod arwyddocâd y cyswllt rhwng iaith benodol a hunaniaeth person yn debygol o gael ei ddryllio'n llwyr pan fo'r person hwnnw yn colli'r gallu i'w siarad. Yn ei dyb ef, nid yw dadl o'r fath ond yn canolbwyntio ar y cyswllt gweithrediadol rhwng person ac iaith ac yn anwybyddu'r cyswllt sy'n medru bodoli ar y gwastad ffurfiannol:

... tyb gyfeiliornus yw hon – tyb fas, seiliedig ar fethu tynnu'r gwahaniaeth rhwng bywyd beunyddiol Pobl, ar y naill law, a'u ffurfiant, ar y llall – rhwng y gwastad gweithrediadol a'r gwastad

30 J. R. Jones, *A Raid i'r Iaith ein Gwahanu?*, ail argraffiad, (Y Lolfa: Talybont, 1978), tt. 9-10.

ffurfiannol. Daliaf fi nad yw cysylltiad Pobl â'u hiaith – na'u rhwymedigaeth, gan hynny, iddi – yn darfod pan beidiant hwy mwyach a'i medru. Canys y mae eu cysylltiad ffurfiannol â hi yn aros, ac yn weladwy yn y ffaith eu bod hwy'n *bod* fel Pobl wahanol.³¹

Felly, wrth gymhwyso'r ddadl hon i sefyllfa Cymru, fel y gwna Jones yn ei ysgrif, gellir casglu nad dim ond y sawl sy'n siarad y Gymraeg fel mamiaith a fedr hawlio fod yr iaith yn elfen bwysig o'u hunaniaeth a'u bod felly yn meddu ar fudd mynegol mewn perthynas â hi. Gall Cymry eraill feddu ar fudd o'r fath hefyd. Deillia hyn o'r ffaith fod y Gymraeg, trwy ei bodolaeth, wedi cyfrannu dros y blynyddoedd at gynnal ymdeimlad o hunaniaeth unigryw ymhlith aelodau'r genedl; ymdeimlad a rhennir nid yn unig ymhlith y sawl sy'n siarad yr iaith fel mamiaith, ond hefyd y sawl sydd wedi'i dysgu fel ail neu drydedd iaith ac, yn ogystal, y sawl sydd ddim yn digwydd ei siarad o gwbl. O ganlyniad, trwy dynnu ar syniadau J. R. Jones, gwelir bod modd llunio dadl sy'n awgrymu bod y budd mynegol hefyd yn meddu ar berthnasedd yn achos y sawl sydd ddim yn siarad y Gymraeg fel mamiaith.

Fodd bynnag, tra bo'r sawl sydd ddim yn siaradwyr mamiaith hefyd yn medru hawlio bod y Gymraeg yn elfen bwysig o'u hunaniaeth a'u bod felly yn meddu ar fudd mynegol mewn perthynas â hi, i ba raddau dylid trin y budd hwn fel un gwirioneddol arwyddocaol? A ellir ei osod ar yr un gwastad moesol a'r budd mynegol a feddir gan y siaradwyr mamiaith, ac yn sgil hynny, gweithredu fel sail ar gyfer hawl foesol i ddarpariaethau cyhoeddus Cymraeg, ynghyd â'r dyletswyddau cysylltiedig?³² Heb os, ni ddylid diystyru pwysigrwydd y budd mynegol a feddir mewn perthynas â'r Gymraeg gan y sawl sydd ddim yn ei siarad fel mamiaith. Fel y gwelwyd wrth drafod gwaith J. R. Jones, gall yr iaith hawlio lle blaenllaw yn nehongliad y bobl hyn o'u hunaniaeth genedlaethol. Fodd bynnag, i ba raddau gellir camu ymhellach a mynnu bod y budd mynegol hwn yn ddigon sylweddol ac arwyddocaol i esgor ar hawl foesol i ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg? A ellir dweud ei fod yn meddu ar yr un pwysigrwydd ac arwyddocâd ag y gwna yn achos y sawl sy'n siaradwyr mamiaith? Neu, mewn geiriau eraill, pe na bai'r Gymraeg yn meddu ar unrhyw gydnabyddiaeth gyhoeddus, i ba raddau y byddai'r niwed o ran hunaniaeth a ddeuai i ran y sawl sydd ddim yn siarad Cymraeg, neu'r sawl sydd wedi'i dysgu fel ail iaith, o'r un anian ac yn meddu ar yr un oblygiadau a'r niwed a ddeuai i ran y sawl sy'n ei siarad ers genedigaeth?³³

Rhaid cyfaddef nad oes gennyf ateb cynhwysfawr i'r cwestiynau uchod. Yn wir, tybiaf y byddai canfod ateb o'r fath yn galw am waith empeiraidd manwl iawn. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddwn, o ymgymryd â'r dasg honno, yn casglu bod rhaid derbyn y dylai'r budd mynegol a feddir gan siaradwyr mamiaith mewn perthynas â'r Gymraeg gael ei osod ar wastad moesol uwch na'r un a feddir gan y sawl sydd ddim, buaswn yn parhau'n amharod i gymryd y cam nesaf a chasglu nad oes felly unrhyw sail foesol gan y sawl sydd ddim yn siaradwyr mamiaith i fynnu darpariaethau cyfrwng Cymraeg fel mater o hawl.

31 Ibid, t. 14.

32 Will Kymlicka, cyfathrebiad personol, eost dyddiedig 27 Hydref 2008.

33 Ibid.

Anghyfiawnder hanesyddol

Deillia fy amharodrzydd i wrthod galwadau'r sawl sydd ddim yn siaradwyr mamiaith, o leiaf fel rheol gyffredinol, o'r ffaith y byddai cam o'r fath yn diystyru'r modd y gall y cyd-destun hanesyddol ddylanwadu'n helaeth ar natur y galwadau ieithyddol y gall y sawl sy'n byw heddiw eu cyflwyno. Ystyrier, os fu i'r niferoedd sy'n siarad iaith benodol ddirywio dan amgylchiadau anghyfiawn, lle gorfodwyd neu anogwyd pobl i roi'r gorau i'w defnyddio'n gyhoeddus ac i'w throsglwyddo i'w plant, onid yw'n annheg i osod galwadau'r unigolion hynny sy'n parhau i'w siarad fel mamiaith ar wastad moesol uwch na rhai'r sawl sydd wedi'i dysgu fel ail neu drydedd iaith, neu'n wir, rai'r sawl sydd ddim yn ei siarad o gwbl. Pe bai amodau'r gorfennol wedi bod yn rhai mwy ffafriol a theg, yna mae'n ddigon posib y byddai aelodau'r carfanau hyn hefyd yn parhau i siarad yr iaith fel mamiaith, ac yn sgil hynny, yn meddu ar alwadau ieithyddol uwch eu statws. O ganlyniad, lle bo dirywiad yr iaith wedi deillio o anghyfiawnder, ymddengys braidd yn amhriodol i wahaniaethu rhwng galwadau ieithyddol gwahanol garfanau. Byddai gwneud hynny yn golygu cosbi rhai pobl am ddigwyddiadau a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Wrth gwrs, er mwyn i ddadl o'r fath feddu ar hygredd, rhaid dangos bod anghyfiawnder wedi dylanwadu ar ddirywiad yr iaith dan sylw. Wedi'r cyfan, nid yw'r ffaith syml fod rhagolygon iaith wedi dirywio'n sylweddol dros y blynyddoedd, yn ei hun, yn brawf o weithredoedd neu brosesau anghyfiawn. Pe bai'r dirywiad yn deillio o'r ffaith fod siaradwyr unigol wedi penderfynu, o'u gwirfodd, i newid eu harferion ieithyddol, a hynny heb wynebu unrhyw ragfarn neu ymyrraeth amhriodol, byddai'n anodd hawlio bod y dirywiad yn un anghyfiawn. Byddai'n ddatblygiad anffodus, ond fel y noda Daniel Weinstock, 'not all that is to be regretted is unjust.'³⁴ Yn hytrach, rhaid i ni dderbyn datblygiadau – anffodus neu beidio – sy'n deillio o benderfyniadau a gymerwyd gan unigolion mewn amgylchiadau rhydd, rhadlon a theg. Fel yr ychwanega Weinstock, '[it] would be overtaxing our intuitions of justice intolerably to require that they never allow regrettable results.'³⁵

Yn wir, pe bai dirywiad iaith benodol yn deillio o ddewisiadau rhydd gan unigolion yn absenoldeb unrhyw bwysau neu orfodaeth, yna mae'n bosib na fyddai amharodrzydd i roi sylw i alwadau'r sawl nad ydynt yn parhau i'w siarad fel mamiaith yn ymddangos yn arbennig o annheg. Fodd bynnag, gellir codi amheuan ynglŷn â sawl achos 'go iawn' o ddirywiad ieithyddol y gellir eu dehongli mewn termau gwirfoddol o'r fath. Fel y noda Michael Blake, 'I think that it is plausible that the vulnerability of most endangered languages stems ultimately from some form of injustice.'³⁶ Yn sicr, o ystyried natur y 'pwysau cymdeithasol, ideolegol a seicolegol grymus a weithiai o blaid y Saesneg' yn ystod ail hanner y bedwaredd

34 Daniel Weinstock, 'The Antinomy of Language Policy', yn *Language Rights and Political Theory*, goln. Will Kymlicka ac Alan Patten (Oxford: Oxford University Press, 2003), tt. 250-70 (262).

35 Ibid, t. 258.

36 Michael Blake, 'Language Death and Liberal Politics', yn *Language Rights and Political Theory*, goln. Will Kymlicka ac Alan Patten (Oxford: Oxford University Press, 2003), tt. 210-29 (222). Gweler hefyd May, 'Misconceiving Minority Language Rights', tt. 150-1.

ganrif ar bymtheg a hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, go brin y byddai modd gwneud hynny yn achos y Gymraeg.³⁷ Nid proses a ddeilliodd o benderfyniadau rhydd gan Gymry unigol mewn amgylchiadau rhadlon a theg oedd y newid aruthrol a welwyd mewn patrymau iaith yn ystod y cyfnod hwn. Yn hytrach, cyflyrwyd y Cymry i edrych ar y Gymraeg fel rhywbeth cyntefig ac israddol; rhywbeth a oedd yn symbol o ddiffyg uchelgais ac a oedd yn rhwystr rhag cynnydd a moderniaeth. Yn wir, ar brydiau cai'r cyflyru hwn – proses a ddisgrifiwyd gan y cymdeithasegydd Ffrengig, Pierre Bourdieu, fel 'trais symbolaidd'³⁸ – ei yrru â sêl bendith y wladwriaeth Brydeinig. Am hynny, er gwaetha'r ansicrwydd a nodwyd ynglyn ag arwyddocad y budd mynegol a feddir gan wahanol garfanau, ni fyddai'n briodol i arddel dadl sy'n honni mai dim ond y sawl sy'n parhau i siarad y Gymraeg fel mamiaith all fynnu bod ganddynt hawl foesol i'w defnyddio wrth wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus.

Casgliadau

I grynhoi felly, yn ystod yr ysgrif hon, ystyriwyd yn feirniadol y duedd ymhlith athronwyr gwleidyddol normadol i dybio mai dim ond mewn perthynas â'n mamiaith y gellir meddu ar hawliau iaith swyddogol. Gwnaed hynny trwy ganolbwyntio ar rai o'r galwadau a gyflwynwyd yng Nghymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Fel yr eglurwyd, nid dim ond unigolion sy'n siarad y Gymraeg fel mamiaith fu'n galw am hawliau i'w defnyddio mewn peuoedd cyhoeddus dros y degawdau diwethaf. Mae'r galw am ddarpariaethau ehangach trwy gyfrwng yr iaith hefyd wedi cwmpasu nifer helaeth o bobl sydd wedi'i dysgu fel oedolion, a hefyd nifer o rieni di-gymraeg sydd am sicrhau bod eu plant yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith. Yn y pendraw, casglwyd y dylai'r carfanau hyn hefyd fedru mynnu darpariaethau cyfrwng Cymraeg fel mater o hawl foesol. I ddechrau, gwelwyd bod modd iddynt lunio achos sy'n dangos eu bod hefyd yn meddu ar fudd mynegol pwysig mewn perthynas â'r iaith. Ond, ar ben hynny, ac yn bwysicach, bu i'r Gymraeg ddirywio mewn amgylchiadau llai na theg. O ganlyniad, byddai'n amhriodol i briodoli statws moesol is i alwadau'r sawl sydd ddim yn parhau i'w siarad fel mamiaith, gan y byddai hynny yn eu cosbi am ddigwyddiadau a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth.

- 37 Geraint H. Jenkins, 'Rhagymadrodd', yn *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, gol. Geraint H. Jenkins (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), tt. 1-20.
- 38 Pierre Bourdieu, *Language and Symbolic Power* (Cambridge: Polity Press, 1991). Gweler hefyd: May, *Language and Minority Rights*, tt. 155-6.

[SUMMARY]

‘Language Rights: Do They Belong Only to Mother-Tongue Speakers?’

Over recent years, a number of political theorists have argued that speakers of minority languages possess interests that give rise to a (moral) right to be able to use them when accessing public services or when conducting public business. Significantly, however, several of those who have advocated such a position have tended to assume that such rights can only be possessed in relation to one’s mother tongue: it is only those who speak language X as a mother tongue who can claim that they have a right to use it in various public domains and who could claim an injustice if such opportunities were denied. The article sets out to evaluate this normative position by focusing on the case of Wales, where rights with regards to Welsh are claimed not only by those who speak the language as a mother tongue, but also by those who have learnt it later in life, and even by some who do not speak it all, such as parents seeking Welsh-medium education for their children. The conclusion reached is that it would be wrong to distinguish between the language-rights claims advanced by these different groups of people. Those who are not mother-tongue speakers should equally be able to claim various Welsh-medium provisions as a matter of right.

Two arguments are advanced in support of this position. Firstly, it is argued that while non-mother-tongue Welsh speakers do not possess any significant communicative interests in relation to the language, they do possess important expressive interests that need to be recognized. Secondly, and more importantly, given that it can be argued that the decline of Welsh occurred in a context that was less than fair, it seems inappropriate to attribute a lower moral significance to the claims of those who no longer speak the language as a mother tongue, since doing so would lead to a position where certain individuals are punished for events that were beyond their control.

How should we interpret the linguistic claims of these people? They all live in Wales and, arguably, view the Welsh language as something that belongs to them in some way or another. Nevertheless, strictly speaking, the language does not count as their mother tongue. Therefore, should we conclude that their claims in relation to the Welsh language do not possess the same moral force as those who speak it as a mother tongue?

The article rejects this conclusion, arguing that these people should also possess claims of right in relation to Welsh. While their case for a primary right to Welsh-medium public provision, based on an expressive interest, was found to be potentially problematic, it was argued that the fact that the decline of the Welsh language was marked by a legacy of historical injustice should be taken into account and should lead to a remedial right to such goods.